

Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau sy'n dwyn y teitl 'Gwerthu Cymru i'r Byd'

Mae pedwar ar ddeg o argymhellion yn yr adroddiad. Gellir grwpio'r argymhellion hyn yn chwe chategori: Masnach a Mewnfuddsoddi; Cysylltiadau Rhyngwladol; Marchnata; Twristiaeth; Trafnidiaeth ac Addysg Uwch. Mae'r ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad wedi'u nodi isod.

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried o ddifrif creu swydd benodol yn y Cabinet i gyfuno'r cyfrifoldebau am fasnach ryngwladol a gweithredu Brexit er mwyn rhoi mwy o ffocws i'r maes allweddol hwn a chyfleoedd rheolaidd a strwythuredig ar gyfer craffu.

Ymateb: Derbyn

Bydd y Prif Weinidog newydd yn cael ei gynghori i ystyried o ddifrif yr argymhelliad hwn.

Mae'r Cod y Gweinidogion (paragraffau 2.1 i 2.4) yn egluro mai materion i'r Prif Weinidog yw cyfrifoldebau a theitlau Gweinidogion.

Bydd pob Prif Weinidog yn ystyried amrywiaeth o ffactorau wrth benderfynu ar bortffolios yn dilyn etholiad neu ad-drefnu. Mae Deddf Llywodraeth Cymru yn cyfyngu ar nifer y penodiadau Gweinidogol i bedwar ar ddeg gan gynnwys y Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol, felly mae'n rhaid ystyried grwpio cyfrifoldebau a phenderfynu ar deitlau yn y cyd-destun hwn.

Dylid nodi, er nad yw masnach ryngwladol a Brexit yn ymddangos yn nheitl un o'r Gweinidogion ar hyn o bryd, mae'r ddau fater hyn yn cael y flaenoriaeth uchaf gyda'r Prif Weinidog ac Ysgrifenyddion y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth oll yn chwarae rhan flaenllaw wrth hyrwyddo Cymru ar draws y byd a negodi'r canlyniad gorau posibl yn dilyn ymadael â'r UE.

Mae gwasanaeth sifil Cymru wedi cael ei ailstrwythuro eleni i gefnogi'r gwaith hwn drwy greu swydd Cyfarwyddwr Cyffredinol i arwain Adran y Prif Weinidog a Brexit sydd â chyfrifoldeb, ymhlith eraill, dros Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, Pontio Ewropeaidd a Chysylltiadau Rhyngwladol sy'n cynnwys rhwydwaith o swyddfeydd Llywodraeth Cymru ar draws y byd.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth twf allforio i baratoi cwmnïau ar gyfer marchnadoedd rhyngwladol a chynyddu nifer y cwmnïau sy'n allforio.

Ymateb: Derbyn

Mae cefnogi cwmnïau i allforio yn cael ei flaenoriaethu o fewn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, sydd wedi bod ar waith ers bron i flwyddyn, ac rydym wedi ymrwymo ers blynyddoedd lawer i gefnogi cwmnïau o Gymru i gynyddu eu hallforion drwy ein rhaglenni Cymorth Allforio. Rydym yn cynorthwyo cwmnïau i dyfu eu busnes drwy allforio ac mae gennym amrediad cynhwysfawr o wasanaethau i'w cefnogi i gyflawni'r uchelgais honno. Gallwn helpu cwmnïau i baratoi ar gyfer y farchnad ac allforio, a'u rhoi mewn cysylltiad â chyfleoedd a chwsmeriaid yn y marchnadoedd o'u dewis drwy gefnogi cwmnïau i deithio i farchnadoedd tramor, arddangos mewn ffeiriau masnach, neu gwrdd â darpar gwsmeriaid. Er enghraifft, mae'r Is-adran Bwyd wedi blaenoriaethu allforion y Dwyrain Canol ar gyfer Bwyd ac yn cynnwys ymweliadau â Qatar a Gulfood yn ei rhaglen allforio.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym hefyd wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau yng Nghymru i gwmnïau er mwyn rhoi cyngor iddynt ar allforio ar ôl Brexit. Yn ogystal â darparu cyngor mwy cyffredinol i allforwyr, mae digwyddiadau yng Nghymru yn cynnwys *Blas Cymru/Taste Wales* lle rydym yn targedu prynwyr tramor i gwrdd â chynhyrchwyr bwyd o Gymru dros gyfnod o ddeuddydd. Rydym yn arddangos cynhyrchion mwy na 100 o gynhyrchwyr bwyd o Gymru ac mae amrywiaeth o gynhyrchion newydd yn cael eu datblygu ar gyfer y digwyddiad.

Mae ein rhaglen o gymorth allforio hefyd yn rhan o strategaeth ryngwladol bresennol *Cymru yn y Byd* ac wedi'i hanelu at gwmnïau o bob maint sy'n awyddus i allforio i bob cyrchfan, y tu mewn a'r tu allan i'r UE, gyda thua 60 y cant o allforion Cymru'n cael eu gwerthu i wledydd yn yr Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd. Rydym yn mynd â chwmnïau i ymweld â marchnadoedd ac arddangosfeydd yng Ngogledd America, y Dwyrain Canol, y Dwyrain Pell a De-ddwyrain Asia yn rheolaidd; yn ddiweddar rydym wedi cefnogi cwmnïau ar deithiau masnach i Qatar a Brasil, ac yn croesawu'n arbennig y nifer fawr o fusnesau bach a gymerodd ran yn ein taith fasnach ddiweddar i Singapôr a Malaysia. Mae ein rhaglen ymweliadau ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol hon yn cynnwys Tsieina, Hong Kong ac Awstralia ac arddangosfeydd yn ADIPEC yn yr Emiradau Arabaidd Unedig ac Aero India. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cynnal cysylltiadau allforio â gwledydd yn yr UE ac mae gennym raglen digwyddiadau tramor gynhwysfawr sy'n anelu at hyrwyddo a chryfhau ein hallforion i'r gwledydd hyn a fydd yn parhau hyd yn oed ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd.

Goblygiadau ariannol: Dim goblygiadau ariannol ychwanegol. Mae'r rhaglen cymorth allforio yn cael ei hariannu o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru fod yn fwy rhagweithiol wrth ddefnyddio'r rhwydwaith presennol o swyddfeydd Tramor a Chymanwlad a'r Adran Fasnach Ryngwladol a chysylltiadau ledled y byd

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad a'r Adran Fasnach Ryngwladol (sef Masnach a Buddsoddi y DU gynt) dros y blynyddoedd i hyrwyddo Cymru o fewn cyd-destun y DU ac rydym wedi datblygu perthynas waith gref. O ganlyniad, gallwn bellach ddibynnu ar y Swyddfa Dramor a Chymanwlad a'r Adran Fasnach Ryngwladol i ymgymryd â rhywfaint o

waith hyrwyddo annibynnol ar gyfer Cymru, yn enwedig o ran Dydd Gŵyl Dewi, ac i gefnogi ein gweithgareddau, er enghraifft, darparu cymorth a chynnal derbyniadau pan fyddwn yn mynd â theithiau masnach i'r farchnad.

Mae cryfder ein perthnasau sy'n bodoli eisoes â'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad a'r Adran Fasnach Ryngwladol wedi golygu ein bod wedi gallu manteisio ar eu cefnogaeth pan agorwyd ein swyddfeydd newydd yng Nghanada, yr Almaen, Qatar a Ffrainc yn ddiweddar. Ar hyn o bryd mae rhwydwaith presennol Llywodraeth Cymru o swyddfeydd tramor yn cynnwys 20 o swyddfeydd ar draws un ar ddeg o wledydd ynghyd â swyddfa ychwanegol yn Llundain. Mae mwyafrif ein timau tramor wedi'u cydleoili yn swyddfeydd y Swyddfa Dramor a Chymanwlad a'r Adran Fasnach Ryngwladol i sicrhau ein bod yn gallu gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Llywodraeth y DU. Rydym wedi gweithio gyda'r Adran Fasnach Ryngwladol, yn Llundain a thramor, i nodi darpar fuddsoddwyr a chwrdd â hwn gan ddatblygu cynigion wedi'u teilwra. Mae ein timau tramor yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd tîm masnach a buddsoddi yr Adran Fasnach Ryngwladol, sy'n sicrhau eu bod yn ymwybodol o weithgarwch ehangach yn eu priod farchnadoedd.

Rydym hefyd wedi datblygu cysylltiadau gyda rhwydweithiau'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad a'r Adran Fasnach Ryngwladol mewn marchnadoedd lle nad oes gennym bresenoldeb ar hyn o bryd. Mae'r Adran Fasnach Ryngwladol wedi cynorthwyo gyda threfnu teithiau masnach i wledydd lle nad oes gennym swyddfa yn ogystal â'n cyflwyno i ddarpar fewnfuddsoddwyr. Mae taith fasnach Llywodraeth Cymru i Frasil ym mis Mehefin 2018 yn un o'r enghreifftiau diweddaraf o weithio'n rhagweithiol gyda'r Adran Fasnach Ryngwladol mewn marchnad lle nad oes gan Lywodraeth Cymru swyddfa. O ganlyniad i'n perthynas ragorol gyda thîm yr Adran Fasnach Ryngwladol yn Rio de Janeiro, rydym yn gweithio gyda'r Pennaeth Masnach a Buddsoddi ar gyfer Brasil i ddatblygu rhaglen ymweliadau dilynol yng Nghymru. Yn ystod yr ymweliad, bydd cwmnïau o Gymru a oedd ar y daith fasnach, a chwmnïau eraill sydd â diddordeb ym Mrasil a oedd yn methu â chymryd rhan yn y daith fasnach, yn cael cyfle i drafod y cysylltiadau allforio a grëwyd ym Mrasil a nodi unrhyw faterion y maent yn eu hwynebu yn uniongyrchol â'r Adran Fasnach Ryngwladol. Bydd yr Adran Fasnach Ryngwladol yn gallu gweithio'n effeithiol gyda Llywodraeth Cymru ar unrhyw weithgaredd dilynol ym Mrasil, ar ôl clywed adborth yn uniongyrchol gan y cwmnïau.

Eleni, penododd Llywodraeth y DU naw Comisiynydd Masnach Ei Mawrhydi newydd i gefnogi masnach a mewnfuddsoddi yn y DU gyda rhanbarthau byd-eang ar ôl i'r DU adael yr UE. Bydd y Comisiynwyr Masnach newydd yn gweithio'n agos â Llysgenhadon, Uwch Gomisiynwyr, y rhwydwaith diplomyddol ehangach a rhwydweithiau'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad a'r Adran Masnach Ryngwladol. Ar hyn o bryd rydym wrthi'n datblygu rhaglen o ymgysylltu â'r Comisiynwyr Masnach i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cysylltiadau presennol rhwng Cymru a'u priod ranbarthau, yn ogystal â datblygu perthynas newydd gyda'r rhanbarthau hyn drwy'r Comisiynwyr Masnach. Yr ymgysylltiad diweddaraf oedd gyda'r Comisiynydd Masnach ar gyfer rhanbarth America Ladin a'r Caribî.

Ar ôl blynyddoedd o anogaeth, mae'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad bellach yn cynnwys Cymru yn rheolaidd ar ei theithiau ymgyfarwyddo i Benaethiaid Teithiau newydd er mwyn sicrhau bod timau newydd yn y farchnad wedi cwrdd â thimau perthnasol Llywodraeth Cymru ac yn ymwybodol o'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig. Mae ein hymgysylltiad rhagweithiol gyda rhwydwaith y Swyddfa Dramor a Chymanwlad a'r Adran Masnach Ryngwladol yn cael ei dargedu at y marchnadoedd

hynny lle y credwn y byddwn yn gallu gweithio'n effeithiol a sicrhau'r enillion mwyaf ar gyfer Cymru.

Goblygiadau ariannol: Dim goblygiadau ariannol ychwanegol. Bydd unrhyw weithgaredd i hyrwyddo Cymru gan ddefnyddio rhwydweithiau'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad a'r Adran Masnach Ryngwladol yn cael ei dynnu o gyllidebau Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach a Mewnfuddsoddi o fewn y gweithgaredd tramor a gynlluniwyd eisoes.

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyhoeddi cylch gwaith manwl ar gyfer y swyddfeydd tramor, a llunio adroddiad i'r Cynulliad bob blwyddyn ar y modd y mae pob swyddfa yn cyflawni'r hyn sydd yn y cynllun busnes.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Yn ddiweddar, rydym wedi penodi Rheolwr Perfformiad, wedi'i leoli yng Nghymru, i weithio'n benodol gyda'n timau tramor i ddatblygu cynlluniau busnes pwrpasol ar gyfer marchnadoedd unigol. Mae pob swyddfa dramor wedi datblygu cynllun busnes wedi'i deilwra i gryfderau unigol eu marchnad. Cyflwynwyd y fformat cynllun busnes cyfredol o fewn y deuddeng mis diwethaf ac mae'n nodi amcanion ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

O ran adrodd yn flynyddol yn erbyn y cynlluniau busnes, gan fod swyddogaeth y swyddfeydd tramor ar hyn o bryd o fewn portffolio Prif Weinidog Cymru, bydd hwn yn fater i'w drafod gyda'r Prif Weinidog a'r Cabinet newydd i ddeall eu gofynion ar gyfer adrodd ar ein gweithgarwch rhyngwladol a bydd y Pwyllgor yn cael ei ddiweddarau maes o law.

Goblygiadau ariannol: Dim goblygiadau ariannol ychwanegol.

Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai busnesau a rhanddeiliaid gael gwybod am gylch gwaith y swyddfeydd tramor er mwyn hybu deialog rhyngddynt, a gwneud yn fawr o'r swyddfeydd. Dylai unrhyw swyddfeydd tramor ychwanegol ganolbwyntio ar farchnadoedd sydd â photensial uchel.

Ymateb: Derbyn

Mae ein gwefan, tradeandinvest.wales, eisoes yn cyhoeddi manylion cyswllt ar gyfer pob un o swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru. Mae busnesau a rhanddeiliaid yn gallu cysylltu â'n swyddfeydd yn uniongyrchol. Yn ogystal, fel y nodwyd yn Argymhelliad 2, rydym wedi cynnal digwyddiadau yng Nghymru i gynghori cwmnïau am allforio ar ôl Brexit. Mynychodd nifer o'n swyddogion tramor o farchnadoedd allweddol y digwyddiadau hyn i dynnu sylw at y gefnogaeth y gallant ei darparu'n uniongyrchol yn y farchnad i gwmnïau.

Mae swyddfeydd newydd wedi'u lleoli mewn gwledydd sydd â photensial uchel. Roedd y penderfyniad i agor swyddfeydd newydd yng Nghanada, yr Almaen, Qatar a Ffrainc yn seiliedig ar asesiad o bob un o'r gwledydd o ran eu cysylltiadau economaidd, diwylliannol ac academiaidd, gan gynnwys eu manteision posibl i Gymru. Yr Almaen a Ffrainc yw ein marchnadoedd allforio sy'n perfformio orau a bydd y swyddfeydd newydd yn Berlin, Düsseldorf a Paris yn adeiladu ar y cysylltiadau allforio rhagorol sydd eisoes yn bodoli gyda'r gwledydd hyn yn ogystal â galluogi Llywodraeth Cymru i weithio'n agos â darpar fuddsoddwyr yn y marchnadoedd strategol pwysig hyn. Mae'r llwybr awyr newydd rhwng Doha a Chaerdydd eisoes wedi cryfhau'r cysylltiadau rhwng Qatar a Chymru. Mae Qatar hefyd yn farchnad allforio allweddol a bydd y swyddfa newydd yn adeiladu ar y cysylltiadau a ddatblygwyd gan y llwybr newydd.

Goblygiadau ariannol: Dim goblygiadau ariannol ychwanegol.

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut i alluogi ystod ehangach o fusnesau yng Nghymru i gael mynediad i'r brand, ond gan gadw rheolaeth ar y safonau ar yr un pryd

Ymateb: Derbyn

Mae gwaith wedi dechrau ar hyb Brand digidol sy'n cynnwys canllawiau, offer a deunyddiau i alluogi busnesau a sefydliadau ledled Cymru i ddefnyddio'r brand yn gywir. Bydd modd i bob busnes twristiaeth graddedig ddefnyddio'r brand cyn bo hir hefyd wrth i frand Cymru Wales gael ei gyflwyno ar bob arwydd a label graddio twristiaeth.

Goblygiadau ariannol: Bydd unrhyw gostau yn cael eu talu o'r gyllideb Twristiaeth a Marchnata ESNR.

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i lobiö am well cynrychiolaeth fel rhan o bresenoldeb digidol VisitBritain, gan gynnwys nifer y cynhyrchion y gellir eu harchebu.

Ymateb: Derbyn

Mae'r gwaith hwn parhau. Bydd gweithio gyda'r diwydiant i ddatblygu cynhyrchion y gellir eu harchebu ac i fynd â'r rhain i'r farchnad yn ffocws mawr i dîm Partneriaeth cryfach o fewn Croeso Cymru dros y 12 mis nesaf.

Goblygiadau ariannol: Bydd unrhyw gostau yn cael eu talu o'r gyllideb Twristiaeth a Marchnata ESNR.

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried a allai CroesoCymru gynnig cynhyrchion y gellir eu harchebu

Ymateb: Derbyn

Mae rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol yn golygu bod cynnig cynhyrchion y gellir eu harchebu'n uniongyrchol yn her i Croeso Cymru. Fodd bynnag, byddwn yn ymchwilio ymhellach i nifer o opsiynau partneriaeth posibl dros y 12 mis nesaf, a bydd rhagor o gymorth hefyd yn cael ei ddarparu i fusnesau ledled Cymru i ddatblygu cynhyrchion y gellir eu harchebu ac i gyflwyno'r rhain i'r farchnad yn fwy effeithiol.

Goblygiadau ariannol: Bydd unrhyw gostau yn cael eu talu o'r gyllideb Twristiaeth a Marchnata ESNR.

Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru godi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael i fusnesau bach a microfusnesau a darparwyr y trydydd sector i gydweithredu a datblygu pecynnau twristiaeth y gellir eu harchebu yn eu hardaloedd

Ymateb: Derbyn

Drwy'r Gronfa Microfusnesau a Busnesau Bach gellir ystyried rhoi cefnogaeth i fusnesau twristiaeth presennol a newydd sy'n awyddus i fuddsoddi mewn cynnyrch a phrofiadau twristiaeth arloesol o ansawdd uchel, sy'n gallu tyfu economi twristiaeth yng nghefn gwlad Cymru a sbarduno twf a chael effaith economaidd ehangach. Drwy'r Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth, mae cymorth ar gael i bartneriaid twristiaeth yn y sector preifat ledled Cymru; i annog cydweithio agosach rhwng consortia twristiaeth, partneriaethau a grwpiau masnach; datblygu a gwella'r cynnyrch sydd ar gael i ymwelwyr a fydd o fudd i'r sector twristiaeth a chymunedau lleol; helpu i dyfu gwerth twristiaeth, ysgogi swyddi lleol a sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y sector yng Nghymru.

Goblygiadau ariannol: Dim goblygiadau cyllido ychwanegol. Ariennir y Gronfa Microfusnesau a Busnesau Bach a'r Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth o'r cyllidebau presennol.

Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Trafnidiaeth Cymru ystyried y ffordd orau o godi ymwybyddiaeth am y Pas Archwilio Cymru fel rhan o'r trefniadau masnachfrait newydd ar gyfer y rheilffyrdd.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Trafnidiaeth Cymru ystyried sut y gall godi ymwybyddiaeth o'r Pas Rheilffordd Crwydro Cymru.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Argymhelliad 11

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i lobïo Llywodraeth y DU ar ddatganoli'r Doll Teithwyr Awyr i Gymru.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r sylwadau a wnaeth yr Athro Pritchard i'r Pwyllgor. Rydym wedi ymrwmo i fynd ar drywydd datganoli'r Doll Teithwyr Awyr i Gymru i hyrwyddo twf economaidd a darparu buddion i fusnesau a defnyddwyr ledled Cymru. Ochr yn ochr â'n partneriaid yn y sector, byddwn yn parhau i lobïo Llywodraeth y DU ar y mater hwn. Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn cyflwyno achos cadarn dros hyn pan fydd yn rhoi tystiolaeth i ymchwiliad arfaethedig y Pwyllgor Materion Cymreig i Ddatganoli'r Doll Teithwyr Awyr i Gymru.

Goblygiadau ariannol: Dim. Bydd y costau'n cynnwys amser staff Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner a byddant yn cael eu talu o fewn cyllidebau'r Costau Rhedeg Is-adrannol presennol.

Argymhelliad 12

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei chynlluniau i gefnogi'r diwydiant drwy ddatblygu'r gweithlu ym maes twristiaeth, yng nghyd-destun Brexit.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod effeithiau posibl Brexit gyda'r diwydiant ac mae'n amlwg bod yr effaith ar y gweithlu yn bryder allweddol i'r sector. Er nad oes gan Croeso Cymru reolaeth uniongyrchol dros fecanweithiau cymorth ar gyfer cynllunio'r gweithlu/sgiliau a bod y diwydiant wedi nodi'n glir y dylai arwain ar hyn, byddwn yn parhau i weithio gyda'r diwydiant i ystyried mesurau i wella materion cynllunio'r gweithlu.

Goblygiadau ariannol: Dim goblygiadau cyllido ychwanegol.

Argymhelliad 13

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ymrwmo i weithio gyda phrifysgolion a cholegau i sicrhau bod y cymwysterau academaidd a phroffesiynol a ddyfernir yng Nghymru yn parhau'n gludadwy.

Ymateb: Derbyn

Mae'r Llywodraeth Cymru eisoes yn ymrwymedig i weithio gyda phrifysgolion a cholegau i sicrhau bod y cymwysterau academaidd a phroffesiynol a ddyfernir yng Nghymru yn parhau'n gludadwy.

Mae proses Bologna yn sicrhau bod safonau ac ansawdd cymwysterau addysg uwch yn gyfarwydd gan arwain at greu Ardal Addysg Uwch Ewrop. Mae 48 o wledydd yn cymryd rhan ym Mhroses Bologna, 20 ohonynt y tu allan i'r UE, ac mae'r DU wedi cadarnhau y bydd yn parhau i fod yn rhan o Broses Bologna ac Ardal Addysg Uwch Ewrop.

Asesir ansawdd a'r gallu i gynnal safonau academiaidd yng Nghymru drwy adolygiadau sicrwydd ansawdd allanol o sefydliadau a reoleiddir. Mae Fframwaith Asesu Ansawdd Cymru yn mynnu bod y rhain yn cael eu cynnal gan gorff sydd ar y Gofrestr Sicrwydd Ansawdd Ewropeaidd ar gyfer Addysg Uwch, ac felly'n cydymffurfio â'r Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd. Mae'r Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd yn galluogi darparwyr addysg uwch i ddangos ansawdd a chynyddu tryloywder, gan helpu i adeiladu cyd-ymdiriedaeth a chydabyddiaeth well o'u cymwysterau, rhaglenni a darpariaeth arall. Defnyddir y Safonau a'r Canllawiau gan sefydliadau ac asiantaethau i sicrhau ansawdd fel dogfen gyfeirio ar gyfer systemau sicrhau ansawdd mewnol ac allanol mewn addysg uwch.

Mae Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes wedi ailddatgan ymrwymiad gwleidyddiol i ailgyfeirio'r FfCChC at y Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd (gwnaed hyn yn wreiddiol yn 2010), ac mae Cymwysterau Cymru a Colegau Cymru eisoes yn gweithio ar hyn. Bydd hyn yn creu disgrifiad gwerthfawr a chyfredol o'n cymwysterau y gall gwledydd eraill gyfeirio ato pan fydd y DU yn ymadael â'r UE, a bydd yn cefnogi cludadwyedd parhaus.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Argymhelliad 14

Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi pobl sy'n dymuno byw, gweithio neu astudio dramor. Os na all Cymru elwa o Erasmus + neu Horizon Europe (y rhaglen olynol i Horizon 2020) mwyach, yna dylid ystyried rhaglenni eraill o fewn yr UE a'r tu allan iddo.

Ymateb: Derbyn

Yn Diogelu Dyfodol Cymru, nodwyd ein barn yn glir y dylai'r DU barhau i gymryd rhan yn Erasmus a Horizon ar ôl Brexit. Mae hynny'n parhau i fod yn wir.

O ran Horizon Europe, y flaenoriaeth absoliwt yw cysylltiad llawn ac rydym yn trafod yn rheolaidd â Llywodraeth y DU i sicrhau bod blaenoriaethau Cymru yn cael eu hadlewyrchu yn y negodiadau. Rhaid unioni unrhyw leihad o ran mynediad gyda chynlluniau cyfartal ac uchelgeisiol yn y DU sy'n sicrhau bod y DU yn parhau i fod yn lleoliad a phartner a ffefrir ar gyfer ymchwil ac arloesi.

O ran Erasmus+, mae swyddogion yn parhau i gynnal trafodaethau gyda chydweithwyr yn yr Adran Addysg ar ddatblygu rhaglen arall yn y DU os na fydd cyfranogiad yn Erasmus+ yn y dyfodol yn bosibl mewn sefyllfa dim bargaen.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r egwyddor y dylai myfyrwyr talentog o Gymru gael y cyfle a'r cyllid i astudio dramor.

Fodd bynnag, ar hyn o bryd os yw myfyriwr yn penderfynu cwblhau gradd mewn prifysgol y tu allan i'r DU, nid yw'n gymwys i wneud cais am gymorth. Argymhellodd

Adolygiad Diamond y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar y posibilrwydd o gynnal cynllun peilot i ganfod a yw'n bosibl ymestyn y pecyn cymorth i fyfyrwyr ar gyfer myfyrwyr sy'n hana o Gymru sy'n dewis astudio y tu allan i'r DU ar gyfer eu rhaglen gradd gyfan. Felly, comisiynodd Llywodraeth Cymru OB3 Research, ar y cyd â Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD), i gynnal astudiaeth gwmpasu gyda'r nod allweddol o ddarparu tystiolaeth i gefnogi datblygu peilot astudiaeth dramor. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Gorffennaf 2018 (<https://gov.wales/statistics-and-research/overseas-study-pilot/?lang=cy>) Mae adroddiad OB3 yn cyfeirio at lefelau isel o alw cudd, anhawster wrth bennu'r galw am gymwysterau cludadwy llawn a chefnogaeth gyfyngedig gan randdeiliaid i ddarparu grant/benthyciad cynhaliaeth i astudio gradd lawn dramor.

Rydym wedi ystyried canfyddiadau'r adroddiad a'r opsiynau ar gyfer datblygu peilot dramor, a byddwn yn cyhoeddi manylion pellach ynglŷn â pheilot arfaethedig yn fuan.

Goblygiadau ariannol: Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r peilot yn cael eu talu o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth